Comisiynu gwasanaeth Cynghorwyr/Eiriolwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol

Yn dilyn cytundeb mewn cyfarfod Rhaglen amlasiantaethol Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn ystod gwanwyn 2023, mae swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys, Gwent a De Cymru yn comisiynu Gwasanaeth Cynghorwyr/Eiriolwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol sy'n Canolbwyntio ar Gyfiawnder Troseddol ar y cyd. Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yn arwain y broses gaffael a rheoli contractau ar ran Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eraill.

Bydd Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu De Cymru yn defnyddio cyllid presennol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn yr amlen ariannol ar gyfer y Gwasanaeth Cynghorwyr/Eiriolwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol. Y bwriad yw dechrau comisiynu'r gwasanaeth newydd yn ystod gwanwyn/haf 2024, yn dibynnu ar amserlenni cwblhau gweithgareddau gweithredu a throsglwyddo angenrheidiol.

Mae adborth gan wasanaethau, goroeswyr a phartneriaid allweddol wedi hwyluso'r broses o ddatblygu manyleb gwasanaeth i gefnogi cynnig cyson, disgwyliadau clir mewn perthynas ag ansawdd a safonau a threfniadau comisynu ffurfiol a fydd yn cyflwyno cyfleoedd monitro a gwerthuso clir ar draws y rhanbarthau.

Bydd y gwasanaeth Cynghorwyr/Eiriolwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a gomisiynwyd yn canolbwyntio ar eiriolaeth a chymorth cyfiawnder troseddol, gan gefnogi anghenion ehangach drwy lwybrau atgyfeirio cadarn at wasanaethau addas.